

Our Ref/Ein Cy

Date/Dyddiad 5th April 2022

Ask for/Gofynner am Mark Cooper

Direct Dial/Rhif Union 01352 701101

Email/Ebost mark.cooper@flintshire.gov.uk

Annwyl ddefnyddiwr Taliad Uniongyrchol,

Ynglŷn â: Taliad Ychwanegol Llywodraeth Cymru o £1000 i Gynorthwyr Personol.

Os nad ydych chi'n cyflogi Cynorthwydd Personol drwy'r Cynllun Taliadau Uniongyrchol, anwybyddwch y llythyr hwn

Bydd nifer ohonoch chi eisoes yn gwybod i'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol gyhoeddi taliad ariannol untro ychwanegol o £1,498 ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol cymwys yng Nghymru ar 10 Chwefror 2022.

Mae'r swm hwn yn cynnwys y gyfradd sylfaenol o dreth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol, ac ar ôl didyniadau, dylai pobl ddisgwyl cael £1000.

Yn ôl Canllawiau Llywodraeth Cymru, mae'r taliad ychwanegol yn dangos ein hymrwymiad i wella statws, telerau ac amodau a llwybrau gyrfa ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Rydym am i fwy o bobl gael gyrfaedd hir fel gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau y bydd Cynorthwyr Personol yn gymwys i gael y taliad hwn cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- Roeddech chi'n eu cyflogi fel Cynorthwydd Personol ar 31 Mawrth 2022.
- Rydych chi wedi dechrau eu cyflogi fel Cynorthwydd Personol rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Mehefin 2022.
- Dim ond un waith maen nhw wedi hawlio'r taliad hwn.

Mae'n bosib dewis cael y taliad mewn pum rhandaliad cyfartal dros 5 mis yn olynol. Dylai Cynorthwyr Personol sy'n dymuno cael eu taliad yn y modd hwn nodi hynny'n eglur ar eu cais.

I sicrhau bod pob Cynorthwydd Personol cymwys rydych chi'n eu cyflogi yn cael cyfle i wneud cais am y taliad ychwanegol hwn, dilynwch y camau hyn:

1. Rhannwch y wybodaeth sydd yn y llythyr hwn gydag unrhyw Gynorthwyr Personol rydych chi'n eu cyflogi.

County Hall, Mold. CH7 6NN

www.flintshire.gov.uk

Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NN

www.sirfflint.gov.uk



2. Gofynnwch i bob Cynorthwydd Personol rydych chi'n eu cyflogi lenwi'r ffurflen gais gweithiwr (sydd ynghlwm).
Os hoffech chi neu'ch Cynorthwydd Personol gopi electronig o'r ffurflen gais, anfonwch neges e-bost ataf i gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost ar frig y llythyr hwn.
3. Ar gyfer Cynorthwywyr Personol a gyflogwyd ar ôl 31 Mawrth, gofynnwch iddyn nhw lenwi ffurflen gais pan maen nhw'n cael eu cyflogi a'i dychwelyd i'r cyfeiriad a ddarperir.
4. Rhaid i'ch Cynorthwywyr Personol lenwi eu ffurflenni cais a'u dychwelyd i chi cyn gynted ag y bo modd.
5. Ymddiheuriadau am yr amserlen dynn, ond rhaid i chi ddychwelyd pob ffurflen gais sydd wedi'i llenwi i'r cyfeiriad canlynol erbyn **15 Ebrill 2022** fan bellaf.
Defnyddiwch yr amlen ragdaledig a ddarperir, neu anfonwch y ffurflenni cais dros e-bost at mark.cooper@flintshire.gov.uk

Mark Cooper, Cyngor Sir y Fflin, Tŷ Dewi Sant,
Parc Dewi Sant, Ewlo, CH5 3FF

6. Ar ôl i'r ffurflenni cais i gyd ddod i law, byddwn yn eu gwirio, ac os ydyn nhw'n gymwys, bydd Cyngor Sir y Fflint yn trefnu i £1,498 yn ychwanegol ar gyfer pob Cynorthwydd Personol cymwys gael ei dalu i'ch cyfrif Taliadau Uniongyrchol.
7. Pan fydd yr arian wedi cyrraedd eich cyfrif, gofynnwch i'ch Cynorthwywyr Personol hawlio eu taliad drwy Daflen Amser ar wahân. Dylid nodi **Taliad Gofal Cymdeithasol Ychwanegol Llywodraeth Cymru** ar y daflen amser hon. Caiff y daflen amser ei phrosesu gan ddarparwr eich Gwasanaethau Cyflogres, a bydd eich Cynorthwywyr Personol yn derbyn y taliad yn eu cyfrif ar ôl tynnu unrhyw ddiidyniadau.
8. Gallai'r taliad ychwanegol olygu bod eich cyfraniadau Yswiriant Gwladol neu eich cyfraniadau Pensiwn fel cyflogwr yn codi.

Rhowch wybod i mi am unrhyw gostau ychwanegol y byddwch yn eu hysgwyddo erbyn 31 Gorffennaf 2022 fan bellaf. Gall darparwr eich Gwasanaethau Cyflogres roi'r wybodaeth hon i chi.

Byddwn yn hawlio'r rhain yn ôl gan Lywodraeth Cymru ar eich rhan.

Rydym yn gwneud ein gorau i gadw'r broses hon mor syml ag y gallwn, ond os bydd angen arweiniad neu gymorth pellach arnoch chi, mae croeso i chi gysylltu â Thîm Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint, a fydd yn fwy na bodlon eich helpu.

Tîm Taliadau Uniongyrchol 01352 701100
E-bost: dp.support@flintshire.gov.uk

I weld Canllawiau Llywodraeth Cymru, dilynwch y ddolen hon:

<https://llyw.cymru/taliad-ychwanegol-ar-gyfer-gweithwyr-gofal-cymdeithasol-wedi-alinio-gydar-cyflog-byw-gwirioneddol/#section-93321>

Yn gywir,

Mark Cooper
Rheolwr Tîm